Cynnig am Ddechreuadau Mater ychwanegol – Cynllun Cyflenwi LSC Cymru

1 Cyflwyniad ac Amcanion

Er mwyn helpu mwy o bobl i gael mynediad i gyngor cyfreithiol safon uchel, mae'r LSC yn dymuno dyrannu tua 10% mwy o ddechreuadau mater i gyflenwyr.

Mae'r cynllun hwn yn nodi cynigion y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol yng Nghymru (LSC yng Nghymru) i gyfrannu at y targed hwnnw yn ystod y cyfnod Ebrill 2005 i Mawrth 2006 drwy gyllido cynnydd o 10% yn nifer y dechreuadau mater Gwaith Rheoledig mewn achosion heb fod yn rhai mewnfudo.

Yn y deuddeg mis rhwng Ebrill 2004 a Mawrth 2005 cefnogodd yr LSC yng Nghymru 43,000 gweithred cymorth drwy ei gontractau. Darparwyd 73% o'r rhain drwy gontractau gyda chwmnïau cyfreithwyr practis preifat a 27% drwy sefydliadau dim er elw.

Ein bwriad felly yw cynyddu nifer y gweithredoedd cymorth a ddarperir gan ein cyflenwyr i 47,500 am y cyfnod Ebrill 2005 i Mawrth 2006.

Byddwn yn dymuno sicrhau fod gweithredoedd cymorth yn cynyddu yn unol â'n strategaeth. Bydd y Comisiwn yn annog cyflenwyr i ddarparu gwasanaethau integredig a diwnïad mewn nifer o feysydd cyfraith, gan roi mynediad i grwpiau cleient nad oes ganddynt fynediad i wasanaethau prif ffrwd ar hyn o bryd a gweithio i ateb blaenoriaethau a ddynodwyd yn Adroddiad Cymru 2004/5 a Strategaeth Contractio Cymru 2005.

Mae'n bwysig fod cynnydd yn nifer yr achosion yn cynrychioli cleientiaid ychwanegol a phroblemau a gaiff eu trin - a byddwn yn adolygu unrhyw gynigion am ehangu yn y goleuni hwnnw.

Wrth gwrs mae Gwaith Rheoledig yn dal i weithredu o fewn cyllideb sefydlog - a byddwn yn edrych hefyd ar werth am arian wrth ddyfarnu dechreuadau achos. Dylech nodi nad yw'r cynllun hwn yn effeithio ar gysoniad contractau, y byddwn yn parhau i'w cynnal.

Mae'r cynllun hwn felly yn nodi:

- **Ein meysydd dechreuol ar gyfer ehangiad - yn gysylltiedig â blaenoriaethau.** Dylai cyflenwyr sydd â diddordeb mewn dechreuadau mater newydd neu gontract i ateb y blaenoriaethau hynny lenwi'r ffurflen a'i dychwelyd at **Delith Ward** yn ein swyddfa yng Nghaerdydd erbyn **dydd Gwener 10 Mehefin 2005 -** gweler adran 6 islaw. Dylai'r ffurflen roi cynigion penodol am sut i ateb y flaenoriaeth berthnasol. Dylech gynnwys manylion faint o ddechreuadau mater yr ydych yn ymofyn, sut y caiff y gwasanaeth ei gyflenwi a sut y bydd hyn yn ateb y flaenoriaeth a nodir. Os ydych yn ymofyn Cyllid Datblygu CLS, dylech roi manylion y swm a'r pwrpas - gweler adran 4 islaw. Fe'ch cynghorir i roi "Cynllun Cyflenwi" ar unrhyw ohebiaeth fel y medrir eu hadnabod yn rhwydd ac i wirio y cawsant eu derbyn.

- Y cymhellion ychwanegol a all fod ar gael i helpu cyflenwyr i ehangu – gweler adran 4 islaw.

Dylai cyflenwyr nodi y caiff y cynllun hwn ei ddiweddaru'n fisol o fis Gorffennaf 2005 (dydd Llun cyntaf y mis) i ychwanegu blaenoriaethau newydd ac i ddyrannu dechreuadau mater pellach ac felly dylai'r cyflenwyr hynny sydd â diddordeb mewn ehangu ei wirio'n rheolaidd o'r dyddiad hwnnw fel y medrant gyflenwi cynigion pellach neu ddiwygiedig o fewn dyddiad cau 14 diwrnod. Cyhoeddir manylion penodol yng nghyswllt datganiadau o ddiddordeb newydd neu ddiwygiedig fel rhan o'r cynllun hwn. Gofynnir i chi nodi y medrwch gyflwyno ffurflen ddiwygiedig ar unrhyw amser os yw eich cais dechreuol yn aflwyddiannus.

2 Cefndir

Daw'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer ehangu a fanylir yn adran 3 islaw o bedair prif ffynhonnell:

- Adroddiad 2004/5 Pwyllgor Gwasanaethau Cyfreithiol Cymru (cyhoeddwyd yn Hydref 2004)
- Strategaeth Contractio LSC Cymru (a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2004)
- adroddiad ymchwil "Achosion Traddodi - Cyfraith Sifil a Chyfiawnder Cymdeithasol" (cyhoeddwyd ym Mai 2004 - gweler www.lsrc.org.uk i gael gwybodaeth bellach);
- gwybodaeth o adolygiad mewnol LSC o weithgareddau Cynllunio a Phartneriaeth ledled Lloegr a Chymru a gynhaliwyd yn Ionawr a Chwefror 2005.

Caiff y meysydd blaenoriaeth ar gyfer y fersiwn hwn o'r Cynllun eu crynhoi ar ffurf tabl yn adran 3.1, a rhoddir gwybodaeth esboniadol bellach yn adrannau 3.2 i 3.4.

Ni ddyrannwyd unrhyw dargedau penodol ar gyfer Dechreuadau Mater Newydd i'r blaenoriaethau a ddynodwyd ar gyfer y fersiwn cyntaf hwn o'r Cynllun - ar y cam hwn, rydym yn frwd i annog cyflenwyr i ddynodi cynigion yn seiliedig ar eich gwybodaeth o'r farchnad. Dylid pwysleisio, fodd bynnag, y byddwn yn disgwyl i chi gyflenwi ar unrhyw ddyraniad o Ddechreuadau Mater Newydd, ac y byddem yn hoffi i chi gynnig am swm **realistig -** os yw'n troi allan yn ddilynol fod eich cynnig dechreuol yn rhy isel, gall fod yn bosibl cynyddu'r dyraniad ymhellach. Yn dibynnu ar yr ymateb i'r gwahoddiad cyntaf hwn i gyflwyno cynigion, medrwn osod targedau Dechreuad Mater Newydd ar flaenoriaethau a ddynodwyd mewn fersiynau diweddarach o'r cynllun.

I gynorthwyo cyflenwyr sy'n dymuno cyflwyno cynnig/cynigion ar gyfer Dechreuadau Mater Newydd yn y meysydd blaenoriaeth a ddynodwyd, rydym wedi datblygu ffurflen pro-fforma i'w chwblhau yn y lle cyntaf. Mae hyn yn nodi'r wybodaeth allweddol y bydd angen i chi ei chyflwyno i ni fedru asesu 'ffit' yn erbyn y blaenoriaethau, a'n galluogi i ganolbwyntio ar y cynigion 'ffit gorau' yn y lle cyntaf.

3 Meysydd allweddol ar gyfer ehangu

3.1 Crynodeb o ardaloedd allweddol ar gyfer ehangu

Awdurdod Unedol/Ardal Partneriaeth Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol	Ardal Ffocws Penodol	Categori/au Cyfraith
Ynys Môn; Gwynedd; Conwy; Sir Ddinbych; Sir y Fflint; Wrecsam	d/y/b	Addysg
	d/y/b	Gofal Cymunedol
Cymru-gyfan	d/y/b	Iechyd Meddwl
Sir Benfro; Ceredigion; Sir Gaerfyrddin; Powys	d/y/b	Addysg
	d/y/b	Gofal Cymunedol
Caerffili	Cwm Rhymni Uchaf	Budd-daliadau Lles a Dyled
Rhondda Cynon Taf	Maerdy a Treherbert	Budd-daliadau Lles a Dyled
Merthyr Tudful	Dowlais	Tai
	d/y/b	Budd-daliadau Lles a Dyled
Powys	Aberhonddu ac Ystradgynlais	Budd-daliadau Lles a Dyled
Blaenau Gwent	d/y/b	Tai
Caerdydd	d/y/b	Dyled
Ceredigion	d/y/b	Budd-daliadau Lles, Dyled a Thai
Sir Benfro	d/y/b	Budd-daliadau Lles, Dyled a Thai

Awdurdod Unedol/Ardal Partneriaeth Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol	Ardal Ffocws Penodol	Categori/au Cyfraith
Torfaen	d/y/b	Budd-daliadau Lles, Dyled a Thai
Cymru-gyfan	d/y/b	Teulu (yn cynnwys Goddefiant am faterion Lles Cymdeithasol cysylltiedig)
Cymru-gyfan	Gwasanaethau all-estyn yn targedu grwpiau anodd-i'w-cyrraedd mewn ardaloedd daearyddol penodol (ee cymunedau gwledig gwasgaredig; stadau tai ymylol ac ati) a/neu gymunedau diddordeb (ee pobl anabl; pobl Du a Lleiafrif Ethnig ac ati)	Pob categori
Cymru-gyfan	Gwasanaethau yn targedu troseddwyr, cyn-droseddwyr a'u teuluoedd - yn benodol, darparu gwasanaethau cyngor sifil i ostwng neu atal problemau gyda thai, dyled, budd-daliadau ac ati ac felly ostwng tebygrwydd ail-droseddu	Tebygol o ganolbwyntio'n bennaf ar Fudd-daliadau Lles, Dyled, Tai a Theulu ond ni chaiff categorïau eraill eu heithrio
Cymru-gyfan	Cynlluniau Dyletswydd Meddiant Tai Llysoedd Sirol	Tai

3.2 **Adroddiad Cymru 2004/5 a Strategaeth Contractio Cymru 2005**
Dynododd Adroddiad Cymru 2004/5 a Strategaeth Contractio Cymru 2005 y blaenoriaethau dilynol ar gyfer datblygu gwasanaeth yn y categorïau hynny o gyfraith a gynllunnir ar eu cyfer ar lefel Cymru-gyfan (Addysg; Cyflogaeth; Mewnfudo; Iechyd Meddwl; a Gofal Cymunedol).

3.2.1 Addysg
Dywedodd yr adroddiad y dylid gosod contractau ychwanegol ar gyfer Gogledd Cymru a Canolbarth/Gorllewin Cymru.

3.2.2 Iechyd Meddwl
Dywedodd yr Adroddiad y medrai'r drafft Fesur Iechyd Meddwl a'r Mesur Gallu Meddyliol fod ag effaith sylweddol ar y galw am gyngor iechyd meddwl yng Nghymru ac argymhellodd fod yr LSC yng Nghymru yn cynllunio ymateb addas.

3.2.3 Gofal Cymunedol
Dywedodd yr Adroddiad y dylid gosod contractau pellach mewn Gofal Cymunedol yn y dyfodol i ateb yr angen cynyddol yn y maes hwnnw o gyfraith. Dangosodd Adroddiad Cymru ardaloedd uchaf ei flaenoriaeth yng Ngogledd Cymru a Chanolbarth/Gorllewin Cymru yn neilltuol.

3.2.4 Blaenoriaethau Penodol Awdurdodau Lleol

Gweler 3.1

3.2.5 Teulu

Nododd Strategaeth Contractio Cymru fod gwaith yng nghyswllt asesu'r angen am gyngor Teulu lefel arbenigol yn cael ei ddatblygu ar lefel Lloegr a Chymru gan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol mewn cysylltiad â'r Adran Materion Cyfansoddiadol a'r Adran Addysg a Sgiliau. Rhagwelwyd y byddai allbynnau dechreuol o'r gwaith hwn yn dod ar gael yn rhan olaf 2005. Yna dywedodd y Strategaeth y bydd y Comisiwn, wrth benderfynu pa gyflenwyr y dylid gosod contractau iddynt, yn ffafrio'r cyflenwyr hynny a all ddangos:

- profiad o waith cyfraith gyhoeddus plant
- profiad o waith cyfraith breifat plant
- profiad o waith trais domestig
- aelodaeth o banel perthnasol
- tystiolaeth o ymrwymiad rhagweithiol gydag asiantaethau eraill yn ymwneud â thrais domestig
- tystiolaeth o atgyfeirio priodol at asiantaethau cefnogaeth
- tystiolaeth o ddefnydd Gwasanaeth Cefnogaeth Arbenigol Cymru neu atgyfeiriad priodol i arbenigwyr mewn cyfraith lles cymdeithasol os nad hefyd yn arbenigydd cyfraith lles cymdeithasol
- gwasanaeth allan-o-oriau-swyddfa.

Yn ychwanegol, cyfeiriodd y Strategaeth at ymchwil a gyhoeddwyd gan Ganolfan Ymchwil Gwasanaethau Cyfreithiol a ddywedodd y gall y rhan fwyaf o gleientiaid teulu sydd yn ariannol gymwys fod hefyd â phroblemau Dyled, Budd-daliadau Lles a Thai. Felly caiff cyflenwyr Teulu eu hannog i ddarparu gwasanaeth integredig i'w cleientiaid Teulu a gwneir hyn drwy ddefnydd goddefiant.

3.3 **"Achosion Traddodi: Cyfraith Sifil a Chyfiawnder Cymdeithasol"**
Dyma'r adroddiad ymchwil yn deillio o arolwg cynhwysfawr o brofiadau pobl yn wynebu problemau cyfreithiol sifil a'u hymatebion i'r problemau hynny. Datgelodd yr arolwg na chymerodd un mewn pob pump o bobl unrhyw gamau i weithredu'r problemau oedd yn eu hwynebu, a bod y mwyafrif ohonynt yn credu na fedrid gwneud dim i'w helpu. Mae'r ymchwil yn rhoi tystiolaeth gref i gefnogi'r farn mai anaml y gwelir problemau cyfreithiol ar ben eu hunain - yn hytrach bydd pobl fel arfer yn wynebu clystyrau o broblemau cysylltiedig ac mai'r ffordd orau o'u trafod yw drwy gynghorwyr a all weithio ar draws nifer o gategorïau cyfraith. Mae'r ymchwil hefyd yn rhoi tystiolaeth gref i awgrymu fod pobl sy'n anabl neu sydd â salwch tymor hir sy'n eu cyfyngu, rhai'n byw mewn tai rhent, rhai ar incwm isel iawn a'r di-waith yn fwy tebygol o brofi problemau cyfreithiol na grwpiau eraill mewn cymdeithas.

3.4 **Gostwng ail-droseddu**
Mae tystiolaeth o nifer o brosiectau peilot yn Lloegr (yng Ngorllewin y Canolbarth, y Gogledd Ddwyrain a Glannau Merswy) yn awgrymu fod troseddwyr, cyn-droseddwyr a'u teuluoedd yn aml yn cael problemau gyda thai, budd-daliadau a dyled sydd yn amharu ar allu'r troseddwr i symud i ffwrdd oddi wrth ymddygiad troseddol ac adsefydlu mewn cymdeithas. Nid yw gwasanaethau cyngor sifil i fynd i'r afael â'r anghenion hyn ar gael bob amser o fewn neu'n gysylltiedig â'r System Cyfiawnder Troseddol ac na eir i'r afael â phroblemau a all yn eu tro gynyddu'r risg y bydd troseddwr yn ail-droseddu.

Caiff y broses a'r meini prawf y byddwn yn eu dilyn wrth wneud unrhyw ddyraniadau eu gosod ym mhrif adran y CLS ar y wefan hon yn y ddogfen Dyfarnu Dechreuadau Mater Ychwanegol; i ddod o hyd i'r ddogfen hon ewch i ddewislen y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol (LSC) ar hafan gwefan yr LSC a medrwch ddod o hyd iddi dan yr adran Datblygu CLS.

4 Cymhellion a'r Gronfa Datblygu CLS

Gwarentir pob dechreuad mater dan y cynllun hwn hyd Ebrill 2007. Mae hyn yn golygu na fyddwn yn dileu'r dechreuadau mater newydd yn y flwyddyn hyd yn oed os yw eich cyfradd rhedeg yn is neu'n eu gostwng yn y rhaglen nesaf. Lle mae gennych ddechreuadau mater yn y categori dan sylw eisoes, bydd y warant felly yn weithredol iddynt hwy hefyd.

Lle'n berthnasol i'r cynllun neilltuol:

Byddwn hefyd yn galluogi dechreuadau mater i gael eu symud rhwng categorïau blaenoriaeth o gyfraith heb ymofyn ein hawdurdod lle mae Nod Ansawdd Arbenigol gan y cyflenwyr.

Mewn meysydd blaenoriaeth byddwn hefyd yn caniatáu cyflenwyr i hunan-awdurdodi dechreuadau mater ychwanegol hyd at derfyn ychwanegol os yw'r galw'n uwch na'r disgwyl.

Byddwn yn anelu i ddefnyddio cronfa Datblygu'r CLS - hyd at £131,000 ar gael yng Nghymru i gefnogi ehangiad mewn cyflenwad. Medrai enghreifftiau dalu am hyfforddiant, recriwtio neu arolygaeth allanol, a/neu ddarparu grantiau neu fenthyciadau ar gyfer costau sefydlu gwasanaeth newydd. Gall cyflenwyr gynnwys cynigion am arian Cronfa Datblygu'r CLS - ond rhoddir ystyriaeth i'r gost wrth benderfynu rhwng cyflenwyr ar sail gwerth am arian.

5 Datblygiadau'r Dyfodol

Caiff y Cynllun hwn ei ddiweddaru ar sail fisol o fis Gorffennaf 2005. Byddwn yn cynnal gwaith i ddynodi cynlluniau newydd a blaenoriaethau ar gyfer datblygu gwasanaeth (mewn cysylltiad gyda phartneriaid a budd-ddeiliaid eraill yn y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol yng Nghymru) ar sail barhaol drwy gydol 2005/6. Fodd bynnag, sylweddolwn y bydd gan gyflenwyr hefyd farn ar feysydd blaenoriaeth posibl ar gyfer datblygu. Byddem felly yn eich annog i ysgrifennu gyda'ch awgrymiadau a chynigion i Delith Ward yn y cyfeiriad islaw.

6 Cyswllt

Delith Ward
Rheolydd Prosiect Dechreuadau Mater Newydd
Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol
Tŷ Marland
Sgwâr Canolog
Caerdydd CF10 1PF

Ffôn : (029) 2064 7100

delith.ward@legalservices.gov.uk